Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Blagur Haf Caergeiliog**

**Ysgol Sefydledig Caergeiliog**
**Lôn Bach**
**Caergeiliog**
**LL65 3NP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**16 Mai 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Blagur Haf wedi'i lleoli ar safle Ysgol Gynradd Caergeiliog ac mae wedi'i chofrestru i ddarparu gofal ar gyfer hyd at 57 o blant hyd at bedair blwydd oed. Gofelir am y plant mewn grwpiau yn dibynnu ar eu hoedrannau.

- Mae'r adeilad, a ailwampiwyd yn ddiweddar, ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7.30am a 6pm trwy gydol y flwyddyn. Mae 15 o leoedd ar gael i blant rhwng chwe mis a dwy flwydd oed.
- Cynigir sesiynau cylch chwarae mewn dwy ystafell ddosbarth gysylltiedig ar dir yr ysgol. Mae 16 o leoedd ar gael i blant rhwng dwy flwydd a hanner a thair blwydd a hanner oed. Mae dwy sesiwn ar gael ar gyfer y grŵp oedran hwn: rhwng 9am a 11.30am a rhwng 1pm a 3.30pm ddydd Llun i ddydd Gwener.
- Mae 26 o leoedd ar gael i blant tair a hanner a phedair blwydd oed. Mae'r sesiwn hon ar gael rhwng 9am a 3.30pm.

Nid yw’r gwasanaeth yn darparu’r cynnig gweithredol o ran y Gymraeg ar hyn o bryd. Lindsea Roberts yw’r person cofrestredig a Melissa Connah yw’r person â gofal.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae plant sy'n mynychu yn hapus ac wedi ymgartrefu. Maen nhw'n cael budd o'r drefn arferol ac yn mwynhau treulio amser gyda'r staff a chyda'i gilydd. Mae'r holl blant yn cael digonedd o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol ac amrywiol sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mae'r staff yn awyddus ac yn ymroddedig i roi profiadau cadarnhaol i blant y byddant yn cael budd ohonynt. Maen nhw'n frwdfrydig yn eu gwaith ac yn sicrhau eu bod yn dod i adnabod y plant yn dda. Mae'r amgylchedd yn cael ei drefnu'n effeithiol ac mae’r arweinwyr yn darparu adnoddau ysgogol sy'n cyfoethogi profiadau’r plant. Mae'r arweinwyr yn brofiadol ac yn arwain y gwasanaeth yn dda. Maen nhw'n ymdrechu i weithio mewn partneriaeth gyda rhieni ac yn mynd ati i hyrwyddo canlyniadau da ar gyfer plant.

### 2. Gwelliannau

Mae'r gwasanaeth wedi cynyddu nifer y plant y gellir darparu gofal ar eu cyfer ers yr arolygiad diwethaf ac wedi ymestyn yr oriau agor. Mae uned gofal dydd llawn wedi'i hadeiladu'n bwrpasol a'i chyflwyno ar gyfer plant iau a babanod. Mae'r ddarpariaeth newydd yn cynnig gofal dydd llawn yn ogystal â gofal cofleidiol i blant sy'n mynychu sesiynau'r cylch chwarae.

Mae'r gwasanaeth wedi mynychu hyfforddiant yn ddiweddar i gyflwyno'r fenter ‘Cynllun Gwên', er mwyn hyrwyddo iechyd y geg da ar gyfer y plant.

Mae'r arweinwyr wedi dechrau gweithio tuag at ddyfarniad ysgolion iach a chynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Ers yr arolygiad, mae'r arweinwyr wedi rhoi datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru i ni a ffurflenni caniatâd meddygol wedi'u diweddaru.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom gyflwyno rhai argymhellion o ran arweinyddiaeth a rheolaeth.  Roedd y rhain yn ymwneud â chadw cofnodion a darparu mwy o adnoddau ar gyfer y plant.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae’r plant sy’n mynychu Meithrinfa Blagur Haf yn hapus ac yn fodlon treulio amser yng nghwmni ei gilydd a'r staff sy'n gofalu amdanynt. Maen nhw'n egnïol ac yn brysur, yn archwilio'u hamgylchedd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hybu eu dysgu a'u datblygiad. Maen nhw'n cael cyfleoedd i gwblhau tasgau'n annibynnol, ac yn hyderus wrth wneud penderfyniadau priodol ynghylch sut i dreulio'u hamser.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae’r plant yn gwneud eu dewisiadau a'u penderfyniadau eu hunain, ac yn cael eu hannog i ddylanwadu ar yr hyn y maen nhw'n ei wneud a'i reoli.

Roedd y plant yn hyderus ac yn gysurus i gymryd rhan mewn gweithgareddau o ddiddordeb iddynt. Gwelsom rai yn dewis chwarae â phasta, ac eraill yn gwneud marciau â sialc. Roedd gan blant gyfoeth o weithgareddau diddorol a llawn hwyl i ddewis ohonynt, rhai dan arweiniad oedolyn ar eraill lle gallai'r plant ddilyn eu diddordebau eu hunain. Er enghraifft, gwelsom blentyn yn mynd at y gweithgaredd paentio dan arweiniad oedolyn, ond wedyn clywyd ef yn dweud wrth y staff yn hyderus, "Byddaf yn dod i wneud hynna mewn munud. Rwy'n mynd i wneud hyn yn gyntaf", ac yna aeth i'r man chwarae â dŵr. Roedd y plentyn wedi ymgolli mewn casglu'r holl lythrennau o'r dŵr gan ddefnyddio'r rhwydi oedd ar gael.

Mae'r plant yn ymwybodol o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt ac maen nhw'n gwneud penderfyniadau priodol.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae’r plant wedi ymgartrefu'n dda ac maen nhw'n ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni.

Roedd y plant a oedd yn mynychu'r sesiynau a welwyd gennym yn hapus ac yn falch o fod yno; roedd rhai hyd yn oed yn gyndyn i adael pan oedd hi'n bryd iddynt fynd adref. Roedd babanod a oedd yn mynychu ar gyfer eu sesiynau ymgartrefu yn cael cynnig gofal cyson, a oedd yn eu galluogi i deimlo'n ddiogel yn eu hamgylchoedd newydd. Gwelwyd eu bod yn magu hyder yn ystod y dydd ac roedden nhw'n gallu mwynhau'r hyn a oedd yn mynd ymlaen o'u cwmpas o ganlyniad i ansawdd y rhyngweithio roedden nhw'n ei brofi. Mae'r plant wedi meithrin perthynas â'i gilydd ac â'r staff. Roedd pob un ohonynt yn fodlon chwarae gyda'i gilydd ac yn awyddus i gynnwys eraill yn y gweithgareddau oedd yn cael eu cynnal. Mae'r plant yn datblygu ymlyniadau agos ac yn gwneud ffrindiau agos, ac maen nhw'n mwynhau'r pethau y maen nhw'n eu gwneud.

### 1.3 Pa mor dda mae’r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dechrau deall eu teimladau ac maen nhw'n sensitif i emosiynau pobl eraill.

Roedd y plant yn ystyriol ac yn garedig tuag at ei gilydd. Roedd plant o bob oedran yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn dda ac yn rhannu'r adnoddau a oedd ar gael iddynt. Roedd plant iau yn rhannu'r anifeiliaid fferm pan oeddent yn chwarae yn yr ystafell chwarae anniben. Anogwyd plant i ehangu eu chwarae, ac roedden nhw'n cael pasta, powlenni a llwyau i'w hwyluso i wneud hyn. Gwelwyd un plentyn yn mwynhau llenwi ei fowlen ac yna'n arllwys y pasta cyn dechrau o'r dechrau eto. Roedd y plant eraill yn chwerthin, ac roedd teimlad eu bod yn adnabod ei gilydd yn dda. Roedd y plant hŷn yn dangos caredigrwydd tuag at blant iau, ac roedden nhw'n awyddus i dreulio amser gyda'i gilydd ac ymatebwyd i giwiau dieiriau. Er enghraifft, gwelsom blentyn a oedd newydd ddechrau yn edrych yn hapus dan wenu pan gafodd eistedd gyda'r plant hŷn wrth y bwrdd yn hytrach nag yn y gadair uchel yr arferai eistedd arni. Gwelsom grŵp o blant yn rhannu'r adnoddau Pasg a oedd ar gael, a gwnaeth pawb ddewis stori gyda'i gilydd y bydden nhw'n ei chlywed cyn mynd adref. Clywyd plant yn gofyn i'r staff yn gwrtais am yr hyn yr oedden nhw ei eisiau yn ystod amserau bwyd, gan ddweud os gwelwch yn dda a diolch yn aml.

Mae'r plant yn gwrtais ac yn foesgar. Maen nhw'n dechrau deall emosiynau pobl eraill a bob amser yn dangos caredigrwydd a pharch.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y maen nhw'n eu mwynhau.

Roedd gan y plant ddiddordeb yn yr hyn a oedd ar gael iddynt, ac roedden nhw'n cael budd o gyfoeth o weithgareddau. Neidiodd y plant i fyny ac i lawr pan glywsant beth oedd yr arlwy o weithgareddau a oedd ar gael iddynt ddewis ohonynt. Daeth plentyn atom ni'n ddiweddarach i ddangos i ni sut roedd wedi llwyddo i addurno cwningen. Roedd yn falch iawn o'r holl gliter yr oedd wedi'i ddefnyddio a faint ohono oedd ar ei ddillad. Roedd y plant yn mwynhau defnyddio'r eitemau gwisgo i fyny yn y gornel thema, gan siarad yn frwdfrydig ynghylch yr hyn roedden nhw'n ei wneud. Cafodd plentyn a oedd eisiau gwisgo ffrog dywysoges gymorth y staff i wneud hynny. Ar ôl amser byrbryd, rhedodd y plant i'r gornel stori ac aros yn eiddgar i glywed stori Pws Esgid Uchel wedi'i darllen iddynt.

Mae'r plant yn cyfrannu'n dda ac yn awyddus i siarad am yr hyn y maen nhw'n ei wneud.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn hyderus ac yn annibynnol.

Roedd plant yn cael eu galluogi, ac roedden nhw'n dilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus yn ôl pob golwg. Roedden nhw'n gwneud penderfyniadau priodol ynghylch sut i dreulio eu hamser. Er enghraifft, roedd un plentyn yn hapus dros ben ei fod wedi llwyddo i ddod o hyd i'r holl rifau coll allan yn yr ardd, heb gymorth staff. Pan ddaeth yn ôl i mewn, roedd y plentyn yn gwenu o glust i glust, a dywedodd yn hyderus wrth y staff a'r plant eraill

pa mor dda oedd ei gyflawniadau. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, pan oedd y tywydd wedi gwella, aeth rhai o'r plant allan i chwarae; roedd yn well gan un plentyn aros dan do, ac ymunodd ag aelod o staff yn frwdfrydig i chwarae'n ddychmygus gan esgus pobi cacennau pen-blwydd. Roedd helpwr y dydd yn cael ei enwebu ym mhob ystafell, a byddai'r plentyn a ddewiswyd yn gwisgo bathodyn. Roedd y plant yn ymroddgar ac yn ymrwymedig i sicrhau eu bod yn cwblhau'r tasgau a ddyrannwyd hyd eithaf eu gallu. Gwelsom y plant yn helpu i glirio'r byrddau a defnyddio'r brwsh a phadell lwch i lanhau'r llawr. Roedd hyn yn rhoi ymdeimlad o falchder, cyfrifoldeb a pherchenogaeth iddynt, yn ogystal ag ymdeimlad o gyflawni pan oedd y dasg wedi'i chwblhau.

Mae'r plant yn ennyn ymdeimlad o falchder ac yn meithrin eu hunanbarch. Maen nhw'n gwneud cynnydd da, yn cwblhau tasgau drostynt eu hunain yn hyderus ac yn rhoi cynnig ar bethau newydd.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Ar y cyfan, mae'r staff yn hyderus ac yn gyfarwydd â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o ran hyrwyddo iechyd a lles plant. Maen nhw'n adnabod y plant yn dda ac yn eu trin â pharch. Mae’r staff yn cynllunio gweithgareddau ac yn ceisio sicrhau eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae’r ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn hyrwyddo iechyd y plant, ond mae angen gwneud rhai newidiadau er mwyn sicrhau bod staff bob amser yn dilyn y gweithdrefnau cywir.

Mae'r staff yn brofiadol ac yn gyfarwydd â'u rolau. Roedd y staff wedi cael cyfleoedd rheolaidd i drafod unrhyw bryderon y gallai fod ganddynt am les plentyn, a gwelsom dystiolaeth o sut roedd staff yn ymdrechu i roi cymorth priodol i blant er mwyn galluogi iddynt gyrraedd eu potensial llawn.

Canfuom anghysondeb yn y cofnodion a gedwid ar ddamweiniau a digwyddiadau. Nid oedd unrhyw broses glir yn cael ei dilyn, ac nid oedd rhai o'r cofnodion a welwyd wedi'u cwblhau'n llawn. Trafodwyd hyn gyda'r person cofrestredig. Canfuom nad oedd unrhyw gofnod clir o sut roedd gwybodaeth wedi'i rhannu â'r rhieni; cawsom wybod mai'r arfer arferol fyddai cysylltu â rhieni dros y ffôn. Gwnaethom argymell bod cofnod yn cael ei gadw o pryd y caiff galwad ffôn ei wneud er mwyn darparu cofnod clir o pryd y caiff gwybodaeth ei rhannu, a dylid cael llofnod os yn bosibl.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi mynychu hyfforddiant ar gymorth cyntaf pediatrig, a rhannodd y staff y broses a ddilynir wrth roi meddyginiaeth i blentyn gyda ni. Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio a'i labelu'n briodol; fodd bynnag, canfuom nad oedd y staff na'r rhieni'n llofnodi i gadarnhau pryd yr oedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi i'w plentyn. Rhoddodd yr arweinwyr newidiadau ar waith ar unwaith ar ôl yr arolygiad, a chyflwynwyd ffurflenni newydd i gofnodi pryd y rhoddwyd meddyginiaeth yn glir. Byddai'r rhain wedyn yn cael eu llofnodi gan y staff a'r rhieni. Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod staff yn gwbl hyddysg yn y prosesau i'w dilyn pe bai angen gadael yr adeilad yn gyflym. Roedd y staff yn cefnogi'r plant i dreulio amser y tu allan yn yr awyr iach, gan alluogi iddynt fod yn gorfforol egnïol. Roedd cogydd a staff cegin yr ysgol yn darparu prydau bwyd iach a oedd yn cael eu coginio'n ffres, ac yn dilyn bwydlen wythnosol a oedd ar gael i rieni. Roedd bwyd a gludid i'r adeilad newydd yn cael ei wirio er mwyn sicrhau bod ei dymheredd yn gywir cyn iddo gael ei weini i'r plant.

Mae'r staff yn llwyddo i hyrwyddo ffordd iach o fyw ac yn ymdrechu i gyflawni canlyniadau da ar gyfer y plant.

## 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn garedig ac yn dyner tuag at y plant.

Roedd yn amlwg bod perthynas agos rhwng y staff a'r plant yn eu gofal. Roedd y staff yn ymateb i'r plant mewn modd gofalgar ac ystyriol. Er enghraifft, clywsom staff yn cymryd yr amser i siarad â'r plant am bethau a oedd yn bwysig iddyn nhw ac roedden nhw'n rhannu eu cyflawniadau. Roedd staff yn nodi eu disgwyliadau o ran ymddygiad yn eglur a rhoddid y flaenoriaeth uchaf i'r drefn arferol. Gwyddai'r staff a'r plant sut y trefnid y diwrnod, a golygai hyn fod y diwrnod yn llifo'n dda, gyda'r plant a'r staff yn symud yn ddiffwdan o un gweithgaredd i'r llall. Er enghraifft, pan oedd y plant yn mwynhau eu cinio, clywsom blentyn yn gofyn, "ydi hi'n iawn i fi fwyta'r jeli nawr? Rwyf wedi gorffen fy nghinio i gyd". Gwnaeth y staff longyfarch y plant am fwyta eu bwyd i gyd. Yn ddiweddarach, gwelsom un plentyn yn dangos ei fowlen wag yn falch i'r rhai hynny o'i amgylch. Nid oedd y staff bob amser yn ymateb yn briodol i sefyllfaoedd heriol pan nad oeddent yn gyfarwydd â dewisiadau unigol plant. Oherwydd hyn, methodd y staff â llongyfarch rhai o'r plant am eu cyflawniadau. Trafodwyd hyn gyda'r person cofrestredig a'r person â gofal, a gwnaethom argymell y dylid cynnig mwy o gymorth i staff yn ystod amserau bwyd.

Roedd yn hawdd mynd at y staff ac roedden nhw'n sensitif i anghenion y plant ar y cyfan. Maen nhw'n sicrhau bod y plant yn cael gwybodaeth am yr hyn a ddisgwylir ganddynt.

## 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu, sy'n galluogi'r plant i ddatblygu sgiliau amrywiol.

Roedd y staff ac arweinwyr ystafell unigol yn sicrhau bod themâu a gweithgareddau'n cael eu cynllunio'n dda a bod ffurflenni gwerthuso'n cael eu llenwi'n rheolaidd a'u defnyddio i gynllunio ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol. Roedd y corneli dysgu'n ddiddorol ac yn adlewyrchu'r thema gyfredol, er enghraifft, roedd gweithgareddau ar gael ar thema'r Pasg, yn ogystal â gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r thema 'trafnidiaeth'. Gwelsom blant yn cael eu cynorthwyo i greu eu platiau rhifau eu hunain i gyd-fynd â'r thema 'trafnidiaeth'. Roedd staff yr uned newydd wrthi'n gweithio ar eu harddangosfa wal newydd, ac roedden nhw'n annog y plant i ddewis a oeddent eisiau cwblhau gweithgaredd paentio. Roedd gan y person â gofal wybodaeth bersonol fanwl am y plant unigol yn ei gofal, ac roedd hyn yn amlwg iawn yn y modd yr oedd hi'n ymateb i'r plant a sut roedd hi hefyd yn cefnogi'r staff i gyflawni eu rolau'n dda.

Roedd y system gweithiwr allweddol wedi'i rhoi ar waith yn effeithiol, a gwelsom fod ffeiliau unigol yn cael eu cadw ar bob plentyn, a oedd yn cofnodi ei gyflawniadau ac yn nodi camau

dysgu nesaf y plentyn. Mae'r staff yn rhoi cwricwlwm y cyfnod sylfaen ar waith yn effeithiol. Er enghraifft, roedd adnoddau amlgyfrwng yn cael eu defnyddio i gynorthwyo'r plant i adnabod rhifau a datblygu sgiliau cyfrif, ac roedd y plant yn mwynhau'r cyfle i ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol wrth ddewis yr ateb cywir i'r cwestiynau. Roedd y staff yn cynorthwyo'r plant i ysgrifennu eu henwau yn y tywod.

Mae'r staff yn hybu datblygiad y plant yn llwyddiannus ac yn rhoi profiadau dysgu cadarnhaol iddynt.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gynnal a chadw'n dda a'i fod yn addas i anghenion y plant. Mae peryglon yn cael eu nodi, ac mae asesiadau risg yn cael eu cwblhau i leihau'r peryglon a berir i blant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad at amrediad o deganau ac adnoddau o ansawdd da sy'n addas i'w hoedrannau.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae’r arweinwyr a’r staff yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Mae risgiau diangen i blant yn cael eu nodi – a'u gwaredu cyn belled ag y bo hynny'n bosibl.

Gwelsom fod yr amgylchedd yn peri cyn lleied â phosibl o risgiau i'r staff a'r plant. Roedd asesiadau risg manwl yn cael eu diweddaru gan yr arweinwyr bob blwyddyn, ac roedd y staff yn gyfrifol am gwblhau asesiadau risg dyddiol. Gwelsom dystiolaeth fod yr holl amgylchedd yn cael ei archwilio cyn i'r plant ddefnyddio unrhyw un o'r mannau chwarae. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod y plant yn ddiogel pan newidiwyd eu cewynnau trwy ddefnyddio strap i'w diogelu, a gwelsom fod y staff yn defnyddio hon yn fedrus. Roedd y drws yn cael ei gadw dan glo ar bob adeg a'r mynediad yn cael ei fonitro'n agos gan staff, ac roedd cofnod yn cael ei gadw o'r ymwelwyr a oedd yn dod i mewn i'r adeilad. Mae'r ysgol gyfagos yn gyfrifol am lanhau'r mannau a ddefnyddir bob dydd; ac mae'r staff hefyd yn gyfrifol am dasgau glanhau penodol yn ystod y dydd.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelwch a llesiant plant.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r adeiladau a'r mannau chwarae yn groesawgar ac yn gysurus.

Mae'r holl ystafelloedd a ddefnyddir yn denu diddordeb y plant ac yn eu hysgogi i archwilio eu hamgylchedd. Roedd yr adeilad newydd a ddefnyddid gan y plant iau yn cynnig gwahanol fannau o ddiddordeb iddynt; gallent archwilio'n ddiogel a chymryd rhan mewn gweithgareddau penodol yn yr ystafell gyfagos ychwanegol. Er enghraifft, gwelsom blant yn mwynhau ychydig o chwarae anniben gydag ewyn a theganau priodol yn y fan hon. Mae gan y plant fynediad hawdd at ardal chwarae awyr agored fawr pan fo'r tywydd yn caniatáu, ac mae llawr meddal wedi'i osod yma i leihau'r risg o anaf. Ychydig iawn o adnoddau sydd ar gael yma ar hyn o bryd, ond roedd hyn wedi'i nodi fel maes i'w ddatblygu yn y dyfodol. Gwnaethom argymell y dylai arweinwyr ystyried cyflwyno adnoddau a fyddai'n cynnig cyfleoedd chwarae amrywiol a chyfoethog, megis cyfleoedd i chwarae gyda dŵr neu

ddringo.   Mae'r ddwy brif ystafell ddosbarth a ddefnyddir gan sesiynau bore a phrynhawn y cylch chwarae wedi'u gosod i adlewyrchu oedrannau'r plant a'r themâu sy'n cael eu dilyn. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn gwneud defnydd da o'r holl fannau a oedd ar gael iddynt, ac roeddent yn neilltuo amser tawel ar ôl adegau prysur er mwyn ymlacio a myfyrio.   Er enghraifft, roedd rhai plant yn dewis bod yn brysur yn creu siapau, tra oedd eraill yn mynd i ddewis llyfr yn y gornel ddarllen ac yn ymlacio yng nghanol y clustogau. Roedd digon o amrywiaeth i gadw'r plant yn brysur, heb iddynt fod o dan draed ei gilydd. Roedd yr holl blant yn cael cyfleoedd i chwarae y tu allan. Roedd plant hŷn yn dychwelyd dan do yn eithaf mwdlyd oherwydd y tywydd gwlyb diweddar, a dywedodd y staff wrthym fod angen iddynt oruchwylio lle roedd gan blant fynediad iddo.  Gwnaethom argymell y gallai arweinwyr ystyried cynnig dillad gwrth-ddŵr i'r plant eu defnyddio.  Byddai hyn yn rhoi rhyddid iddynt ddefnyddio pob rhan o'r ardal chwarae awyr agored heb boeni ynghylch eu dillad na'u hesgidiau.

Mae’r arweinwyr yn darparu amgylchedd sydd wedi'i gynllunio'n dda. Maen nhw'n sicrhau bod digon o le i ddiwallu anghenion y plant i gyd.

**3.3  Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan blant fynediad at ddodrefn, offer, teganau a deunyddiau sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion. Mae'r adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da.

Roedd yr arweinwyr yn cynnig adnoddau a oedd yn apelio at y plant ac yn gwneud eu hamser yma'n ddiddorol.  Roedd yr eitemau a oedd ar gael yn lliwgar ac yn addas i gamau datblygu'r plant.  Er enghraifft, gallai babanod ddewis o deganau llawr, ond roeddent hefyd yn cael eu hannog i ddefnyddio'r cymhorthion cerdded i fabanod er mwyn cefnogi eu datblygiad.  Roedd un plentyn yn mwynhau chwarae gyda'r cymorth cerdded i fabanod pan oedd y tu allan, ac roedd hwn yn ei gefnogi i gryfhau wrth gerdded.  Gwnaethom argymell y dylai arweinwyr ystyried cyflwyno mwy o adnoddau yn yr uned newydd i blant iau. Canfuom fod llawer o blastig, ac ychydig iawn o eitemau ac adnoddau a oedd yn cynnig profiadau synhwyraidd.   Roedd amrywiaeth eang o wahanol ddeunyddiau ar gael yn ystafelloedd y cylch chwarae, ac roedd y staff yn dilyn system gadarn ar gyfer sicrhau bod teganau'n cael eu cadw'n lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.  Er enghraifft, gwelsom restr o ddyletswyddau a phwy oedd yn gyfrifol am bob un ohonynt wedi'i harddangos yn yr ystafelloedd chwarae.  Roedd digonedd o adnoddau ar gael, ac roedd y gwasanaeth yn elwa ar ei berthynas agos â'r ysgol gyfagos yn hyn o beth.

Mae'r arweinwyr yn cefnogi ac yn hyrwyddo datblygiad plant trwy ddarparu maint digonol o deganau o ansawdd da ar eu cyfer.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr a'r staff yn uchel eu cymhelliant ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm. Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, ac mae arweinwyr bob amser ar gael i gynnig cymorth i staff. Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn gyson, gyda pherthynas weithio agos rhwng y staff sy'n gyfrifol am y gwaith o ddydd i ddydd, aelodau o'r pwyllgor a rhieni.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau priodol ac yn rhoi newidiadau ar waith pan fo angen er mwyn cyfleu cyfeiriad a nod y gwasanaeth yn llwyr.

Canfuom fod angen diweddaru'r datganiad o ddiben er mwyn sicrhau ei fod yn llwyr adlewyrchu'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei weithredu, nifer yr wythnosau y mae'r gwasanaeth ar agor, a'r gwahanol sesiynau sydd ar gael gan y cylch chwarae, er mwyn egluro'r gwahanol elfennau o ofal a gynigir gan y gwasanaeth. Rhoddodd yr arweinwyr y newidiadau hyn ar waith yn fuan ar ôl yr arolygiad, ac anfonwyd datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru at Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r arferion gorau ac maen nhw'n ymdrechu i roi gwelliannau ar waith i adeiladu'r gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i wneud cynnydd a symud yn ei flaen. Er enghraifft, ers yr arolygiad diwethaf, mae'r arweinwyr wedi dechrau gweithio ar fenter Ysgolion Iach Llywodraeth Cymru, ac maen nhw'n cael eu hardystio ar hyn o bryd i roi'r fenter Cynllun Gwên ar waith.

Mae’r arweinwyr yn ymdrechu i roi systemau cadarn ar waith er mwyn datblygu'r gwasanaeth. Maen nhw'n cyfleu eu disgwyliadau ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth ac yn sicrhau eu bod yn cadw datganiad o ddiben cyfredol sy'n rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn casglu ac yn ystyried safbwyntiau'r staff, y rhieni a'r ysgol gyfagos yn rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth o gyfradd ymateb dda gan rieni pan oedd arweinwyr wedi gofyn am eu hadborth ar eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaeth. Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gadarnhaol iawn, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a oedd yn cael ei gynnig. Gwnaethant nodi eu bod yn credu bod eu plant yn elwa ar eu profiadau ac yn gwneud cynnydd da. Mae nifer o newidiadau arwyddocaol wedi cael eu gwneud ers yr arolygiad diwethaf, ac mae'r rhain wedi digwydd yn rhannol mewn ymateb uniongyrchol i geisiadau a thrafodaethau gan rieni. Er enghraifft, cyflwynwyd yr uned gofal dydd llawn i blant iau ar ôl ceisiadau gan rieni a diddordeb a ddangoswyd ganddynt. Cyflwynodd yr arweinwyr yr uned newydd a chynigiwyd elfen ychwanegol i'r gwasanaeth a gynigir. Ei nod

oedd cynnig gofal cynhwysfawr i blant a'u teuluoedd a gwneud i deuluoedd a phlant deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn rhan o gymuned yr ysgol.   Gwelsom fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal, gyda chyfleoedd i staff gyfrannu a rhoi adborth ar eu profiadau.  Mae'r person cofrestredig wedi cofnodi amcanion ar gyfer y dyfodol a'i nod yw cyflawni'r rhain trwy gydol y flwyddyn.  Gwelsom fod rhai o'r amcanion a nodwyd ar gyfer eleni eisoes wedi'u cyflawni.  Er enghraifft, roedd y gwasanaeth wedi bod yn rhan o gynllun grant Tesco yn ddiweddar, ac roeddent yn aros i glywed nawr faint o gyllid y byddai'r gwasanaeth yn ei gael i'w cynorthwyo i wella'r hyn a oedd ar gael i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn adfyfyriol, mae systemau effeithiol ar waith ar gyfer casglu barn plant, rhieni a staff, ac mae'r arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth mewn modd cadarnhaol er lles y gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn diffinio rolau a chyfrifoldebau ac yn cefnogi staff er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu rolau o ran nodau ac amcanion y gwasanaeth.

Mae'r arweinwyr yn ceisio cefnogi a galluogi'r staff i gyflawni eu rolau hyd eithaf eu gallu. Gwelsom fod y person cofrestredig yn cadw matrics hyfforddiant a oedd yn ei galluogi i gael trosolwg o anghenion hyfforddi'r staff. Roedd yr holl anghenion hyfforddi gorfodol yn gyfredol, a darperid hyfforddiant ychwanegol er mwyn gwella ac adeiladu ar sgiliau'r staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu yn eu rolau, a gwelsom fod nifer yn gweithio tuag at gymwysterau ychwanegol.   Gwelwyd bod arweinwyr yn weladwy ac ar gael, ac roedd strwythur staffio clir ym mhob ystafell.  Cynigir sesiynau goruchwylio unigol, a dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.  Mae gan yr arweinwyr strategaeth rheoli perfformiad ar waith, ac maen nhw'n annog ac yn cefnogi'r staff i weithio tuag at dargedau a nodwyd er mwyn eu galluogi i ddatblygu a thyfu yn eu gwaith.  Mae'r arweinwyr wedi cefnogi staff trwy'r newidiadau diweddar; mae staff ychwanegol wedi'u cyflogi oherwydd y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, ac mae'r newidiadau i rolau a chyfrifoldebau wedi'u hegluro. Canfuom fod ffeiliau'r staff yn cynnwys yr wybodaeth ofynnol, a oedd yn galluogi'r arweinwyr i bennu addasrwydd gweithwyr yn briodol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio mewn modd amserol er mwyn sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu. Mae staff yn cael eu defnyddio'n dda i ddiwallu anghenion y gwahanol grwpiau oedran.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr berthnasau cadarnhaol â rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r gymuned ehangach.

Mae’r arweinwyr yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni, er enghraifft, rhoddir dyddiadur dyddiol i rieni'r plant iau sy'n amlinellu'r hyn y mae eu plant wedi'i gyflawni a sut y mae eu

hanghenion wedi'u diwallu. Rhoddir taflen wybodaeth i rieni plant hŷn, sy'n rhoi trosolwg cryno o ddiwrnod eu plentyn. Roedd rhieni'n rhannu gwybodaeth â'r arweinwyr a'r staff trwy lenwi'r ffurflenni perthnasol cyn i'w plentyn ddechrau. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn gwybod dewisiadau ac anghenion pob plentyn ac yn ceisio eu diwallu. Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth, a nododd un fam bod ei baban wedi ymgartrefu'n dda iawn. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau cadarnhaol â'r ysgol gyfagos, ac mae hyn o fudd i'r plant. Er enghraifft, maen nhw'n gyfarwydd â'u hamgylchedd, gan wneud y cyfnod pontio i addysg llawn amser yn ddi-dor. Mae'r ddau leoliad yn gallu rhannu adnoddau, megis yr ardaloedd chwarae awyr agored, a chaiff yr holl fwyd ei baratoi gan gegin yr ysgol, sy'n galluogi'r rhieni i ddewis y prydau bwyd y maen nhw am i'w plant eu mwynhau. Gwahoddir rhieni i fynychu noson rieni'n rheolaidd, lle gallant siarad am gynnydd eu plant a gweld y gwaith y maen nhw wedi'i wneud. Mae hysbysfwrdd mawr y tu allan i ystafelloedd y cylch chwarae a'r adeilad newydd i blant iau yn arddangos hysbysiadau a gwybodaeth hanfodol a allai fod o ddiddordeb i'r rhieni.

Mae'r arweinwyr yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni ac yn eu hysbysu'n gyson ynghylch gofal a datblygiad eu plentyn.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y gallai'r person cofrestredig wneud y canlynol:

- cadw cofnod o'r sgyrsiau dros y ffôn rhwng y gwasanaeth a'r rhieni, er mwyn gallu nodi'n glir pryd cafodd gwybodaeth ei rhannu, a dylid cael llofnod os yn bosibl
- cyflwyno canllawiau i staff i'w helpu i ymdrin â sefyllfaoedd heriol
- cyflwyno adnoddau a fyddai'n cynnig profiadau chwarae amrywiol a chyfoethog, megis cyfleoedd i chwarae gyda dŵr neu ddringo
- ystyried cynnig dillad gwrth-ddŵr i'r plant eu defnyddio. Byddai hyn yn rhoi'r rhyddid iddynt ddefnyddio'r holl ardaloedd chwarae awyr agored
- ystyried cyflwyno adnoddau ychwanegol i'r uned newydd ar gyfer plant iau. Canfuom fod llawer o blastig, ac ychydig iawn o eitemau ac adnoddau a oedd yn cynnig profiadau synhwyraidd

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd, llawn a gynhaliwyd fel rhan o’n hamserlen arferol o arolygiadau.

Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 16 Mawrth 2018 rhwng 9.15am a 5.45pm. Darparwyd adborth i'r person cofrestredig dros y ffôn ar 19 Mawrth 2018.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio dull y Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI 2) i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan y staff
- siarad â'r plant a'r staff
- siarad â'r rhieni
- edrych ar ffeiliau'r plant a ffeiliau'r staff
- edrych ar yr adnoddau

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal dydd llawn** |
| **Person cofrestredig** | **Lindsea Roberts** |
| **Person â gofal** | **Melissa Connah** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd?** | **57** |
| **Ystod oedran y plant** | **O'u geni hyd at bedair blwydd oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener**<br>**Ystafell 1**<br>**O dan ddwy flwydd a hanner oed**<br>**Rhwng 7.30am a 6pm**<br><br>**Ystafell 2**<br>**Rhwng dwy flwydd a hanner a thair blwydd a hanner oed**<br>**Rhwng 9am a 11.30am / Rhwng 1pm a 3.30pm**<br><br>**Ystafell 3**<br>**Rhwng tair blwydd a hanner a phedair blwydd oed**<br>**Rhwng 9am a 3.30pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy iaith** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **17 Mawrth 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **16 Mawrth 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy. Mae elfennau o'r gwasanaeth hwn yn cael eu harolygu gan Estyn hefyd.** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu cynnig gweithredol y Gymraeg ac sy'n dangos ymdrech sylweddol o ran hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |